**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Minister for Public Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/our ref: MB/LA/4670/14

Aelodau Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

10 Tachwedd 2014

Annwyl Gyfeillion,

Ar 16 Medi gofynnodd Mark Isherwood gwestiwn yn y cyfarfod llawn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ynghylch rhaglenni ar gyfer tramgwyddwyr, ac yn benodol ynghylch dod â'r cyllid i ben ar gyfer rhaglen Relate Cymru *Choose2Change* yng Ngogledd Cymru. Gofynnodd y Gweinidog iddo fynegi ei bryderon mewn llythyr. Gwnaeth hynny, ac anfonais ateb iddo ar 26 Medi gan fod y mater yn dod oddi mewn i fy mhortffolio i. Ers hynny rwyf wedi cael fy hysbysu bod Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Winston Roddick, wedi cytuno i ariannu'r Rhaglen fel y gall barhau i weithredu tan ddiwedd mis Mawrth 2015.

Yn 2010, rhoddodd Llywodraeth Cymru arian argyfwng un-tro i'r Rhaglen *Choose2Change.* Pwrpas yr arian oedd cefnogi'r Rhaglen gan geisio sicrhau arian prif ffrwd i ddiogelu ei hun yn y tymor hirach. Gwasanaeth lleol yw Choose2Change. Felly, byddwn yn disgwyl i gomisiynwyr lleol fel Awdurdodau Lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ystyried dyfodol y gwasanaeth hwn.

Mae gweithio gyda thramgwyddwyr yn allweddol i fynd i'r afael â phob math o drais a cham-drin domestig. Mae rhaglenni tramgwyddwyr yn elfen bwysig o sicrhau atal, a heb y rhaglenni hyn ni fyddai'r cylch cam-drin yn cael ei dorri.

Wrth baratoi'r Strategaeth Genedlaethol, y darperir ar ei chyfer o fewn y Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), rhoddir ystyriaeth i gamau y gallai Gweinidogion Cymru eu cymryd i helpu i ddatblygu rhaglenni ar gyfer

tramgwyddwyr. Ar 30 Ebrill 2014, cyhoeddwyd adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, sef *Adeiladu Ymatebion Effeithiol: Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru.*. Roedd yr adroddiad hwn yn awgrymu cynnal profion ar ystod o raglenni tramgwyddwyr i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth, nad yw'n ddigon cadarn ar hyn o bryd. Rhoddir ystyriaeth i'r argymhelliad hwn yng nghyd-destun datblygu'r Strategaeth Genedlaethol.

Yn yr un modd, lle nodir bod angen am raglenni tramgwyddwyr mewn ardaloedd lleol, byddai gofyn i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ystyried pa gamau y dylent eu cymryd drwy eu strategaeth leol, y mae darpariaeth ar eu cyfer hefyd wedi'i chynnwys yn y Bil, i ymdrin ag angen o'r fath.

O ystyried hyn, rwy'n croesawu'r arian interim y cytunwyd arno gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yng Ngogledd Cymru ar gyfer y Rhaglen *Choose2Change.* Byddwn yn annog comisiynwyr lleol i ystyried rhoi cyllid parhaus i'r Rhaglen gan roi ystyriaeth i angen lleol.

Yn gywir,

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services